

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

AMODAU SAFONOL CONTRACT AR GYFER PRYNU NWYDDAU A/NEU WASANAETHAU

1. DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU

(i) Yn yr Amodau hyn:

Ystyr "**Amodau**" yw'r termau ac amodau prynu safonol a nodir yn y ddogfen hon ac (oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall) yn cynnwys unrhyw delerau ac amodau arbennig a nodir yn yr Archeb;

Ystyr "**Cais am Wybodaeth**" yw cais am wybodaeth neu gais ymddangosiadol o dan y Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol;

Ystyr "**Comisiynydd Gwybodaeth**" a "**Tribiwnlys Gwybodaeth**" yw'r ystyron a roddir o dan adran 6 o Ddeddf Diogelu Data 2018;

Ystyr "**Contract**" yw'r contract ar gyfer prynu'r Nwyddau a/neu gyflenwi'r Gwasanaethau a ffurfiwyd yn unol ag amod 2. Mae'r dogfennau sy'n ffurfio'r Contract yn cynnwys yr Amodau ac unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir atynt yn yr Archeb.

Ystyr "**Chi**" ac "**Eich**" yw'r person y cyfeirir yr archeb ato;

Bydd gan "**Darparwr Gweithgarwch a Reoleiddir**" yr un ystyr ag a nodir yn adran 6 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;

Ystyr "**Deddf Rhyddid Gwybodaeth**" yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf o bryd i'w gilydd;

Ystyr "**Deddfwriaeth Diogelu Data**" yw'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau diogelu data perthnasol mewn unrhyw awdurdodaeth berthnasol, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018;

Ystyr "**Diwrnod Gwaith**" yw o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio unrhyw wyliau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr;

Ystyr "**Diwygio Archeb**" yw diwygiad i'n Harcheb a gyhoeddir gan Swyddog Awdurdodedig;

Ystyr "**Gofynion Cyflawni**" yw unrhyw gynnyrch, deunyddiau a/neu eitemau a grëwyd neu a ddatblygwyd gennych chi ar ein cyfer fel rhan o'r Gwasanaethau neu mewn perthynas â hwy;

Ystyr "**Gwahoddiad i Dendro**" yw gwahoddiad i dendro neu ofyn am ddyfynbris neu ddogfen debyg a gyhoeddwyd gennym mewn cysylltiad â'n caffaeliad arfaethedig o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau;

Ystyr "**Gwasanaethau**" yw'r gwaith a'r gwasanaethau a ddisgrifir yn yr Archeb;

Bydd gan "**Gweithgaredd a Reoleiddir**" yr un ystyr mewn perthynas â phlant ag a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac mewn perthynas ag oedolion sy'n agored i niwed bydd iddynt yr un ystyr ag a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;

Ystyr "**Gweithrediadau Adeiladu**" yw gweithrediadau fel y'u diffinnir yn Neddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 fel y'i diwygiwyd;

Ystyr "**Gwybodaeth**" yw'r ystyr a roddir o dan adran 84 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;

Ystyr "**Gwybodaeth Gyfrinachol**" yw gwybodaeth y byddai ei datgelu gyfystyr â gweithred o dor-cyfrinachedd, sydd naill ai wedi'i ddynodi'n gyfrinachol gan y naill barti neu'r llall yn ysgrifenedig o hynny, y dylid ei ystyried yn gyfrinachol (ar ba ffurf neu gyfrwng bynnag ac a ddatgelir ar lafar neu'n ysgrifenedig, ynghyd â phob atgynhyrchiad ar ba bynnag ffurf neu gyfrwng ac unrhyw ran neu rannau ohono) gan gynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif a gwybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â'r busnes, materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, cyfrinachau masnach, Hawliau Eiddo Deallusol, datblygiadau, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill barti neu'r llall a'r holl ddata personol a data personol sensitif (fel y diffinnir termau o'r fath yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data);

Ystyr "**Hawliau Eiddo Deallusol**" yw, yn gyfunol, unrhyw hawliau eiddo deallusol sy'n codi neu'n bodoli mewn unrhyw ran o'r byd gan gynnwys: (a) dyfeisiadau, patentau, dyluniadau cofrestredig, enwau parthau, nodau masnach (boed yn gofrestredig neu heb eu cofrestru) ceisiadau am unrhyw un o'r cyfryw a'r hawl i wneud cais amdanynt mewn unrhyw wlad yn y byd; (b) hawlfreintiau, hawliau o ran natur yr hawlfreintiau, hawliau moesol, hawliau dylunio a hawliau cronfeydd data; (c) enwau masnach a logos; (d) datblygiadau a chyfrinachau masnachol; ac (d) y cyfan neu unrhyw hawliau cyfatebol tebyg.

Ystyr "**Manylebau**" yw unrhyw fanylebau, gofynion, lefelau gwasanaeth a meini prawf cyflawni a gyhoeddwyd gennym i chi (boed yn unol â Gwahoddiad i Dendro neu fel arall) neu a gyhoeddwyd gennych chi (boed yn unol ag Ymateb i Dendr neu fel arall) ac y cytunwyd arnynt yn ysgrifenedig gennym gan gynnwys unrhyw luniau, amserlenni, cynlluniau, data neu wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau;

Ystyr "**Ni**" ac "**Ein**" yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru neu unrhyw is-gwmni sy'n eiddo'n gyfan gwbl neu'n gysylltiedig â hi a enwir ar yr Archeb;

Ystyr "**Nwyddau**" yw'r cynhyrchion, y deunyddiau a/neu'r eitemau a ddisgrifir yn yr Archeb;

Ystyr "Oriau Busnes Arferol" yw [9am i 5pm]

Ystyr "**Pecyn**" neu "**Deunydd pacio**" yw unrhyw fath o becyn gan gynnwys bagiau, casys, carboiau, silindrau, drymiau, paledi, wagenni tanc a chynwysyddion eraill;

Ystyr "**Personél Allweddol**" yw'r personél a nodir yn yr Archeb;

Ystyr "**Polisiau Gorfodol**" yw unrhyw un o'n polisiau a hysbyswyd i chi o bryd i'w gilydd.

Ystyr "**Polisi Iechyd a Diogelwch**" yw ein polisi iechyd a diogelwch fel y'i darperir i chi ar neu cyn ymrwymo i'r Contract ac fel y'i darperir i chi o bryd i'w gilydd ac eithrio unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw bolisi a ddarperir wedyn na ellir ei gysoni'n rhesymol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfraith berthnasol o ran iechyd a diogelwch;

Ystyr "**Pris**" yw'r pris a nodir yn yr Archeb neu a gyfrifir yn unol â darpariaethau'r Archeb;

Ystyr "**Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol**" yw Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (OS 2004/3391) ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu'r adran berthnasol o'r llywodraeth mewn perthynas â deddfwriaeth o'r fath;

Ystyr "**Swyddog Awdurdodedig**" yw ein cyflogai sydd wedi'i awdurdodi'n benodol gennym i lofnodi ein Harcheb, y gellir cael cadarnhad ohono gan ein Cyfarwyddwr Cyllid;

Ystyr "**Trefn**" yw naill ai:

- (a) archeb prynu ysgrifenedig neu gais a gyhoeddwyd gennym mewn perthynas â'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau; neu
- (b) lythyr dyfarnu a gyhoeddwyd gennym yn dilyn proses dendro gystadleuol neu gais am ddyfynbris mewn perthynas â darparu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau,

ac ym mhob achos gan gynnwys y Manylebau; ac

Ystyr "**Ymateb i Dendr**" yw eich cais neu ddogfennau cynnig (os o gwbl) a gyflwynir mewn ymateb i'n Gwahoddiad i Dendro.

- (ii) Os oes unrhyw wrthdaro neu anghysondeb rhwng: (a) yr Amodau hyn; (b) unrhyw un o delerau'r Archeb; (c) y Gwahoddiad i Dendro; neu (d) Ymateb i Dendr, oni nodir yn wahanol yn yr Archeb, bydd y drefn flaenoriaeth fel a ganlyn: (i) yr Archeb, (ii) yr Amodau; (iii) y Gwahoddiad i Dendro a (iv) yr Ymateb i Dendr.
- (iii) Bydd unrhyw gyfeiriad at "berson" yn cael ei ddehongli er mwyn cynnwys unrhyw unigolyn, cwmni, corfforaeth, llywodraeth, gwladwriaeth neu asiantaeth o wladwriaeth neu unrhyw gyd-fenter, ymddiriedolaeth, cymdeithas neu bartneriaeth (p'un a oes ganddynt bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio);
- (iv) Bydd unrhyw gyfeiriad yn yr Amodau hyn at statud neu ddarpariaeth mewn statud yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y statud neu'r ddarpariaeth honno fel y'i diwygiwyd, ei haildeddfu neu ei hymestyn ar yr adeg berthnasol.
- (v) Mae'r penawdau yn yr Amodau hyn er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar y dehongliad ohonynt.

2. FFURFIO CONTRACTAU

- (i) Yn ddarostyngedig i Amod 2(ii) isod, bydd i chi ddechrau cyflawni'r Archeb a/neu bydd unrhyw dderbyniad sydd ymhlyg â neu benodol o'r Archeb gennych chi neu eich defnydd o rif yr Archeb mewn cydnabyddiaeth o unrhyw archeb, yn dangos yn bendant eich bod yn cytuno â'r Archeb a'i ddarpariaethau ar yr Amodau hyn ac yn ddarostyngedig iddynt a bydd contract yn cael ei ffurfio yn unol â hynny.
- (ii) Pan fydd yr Archeb wedi'i gyhoeddi gennym ar ôl cwblhau proses dendro gystadleuol, bernir bod eich ymateb i dendr yn gynnig gennych chi i gyflenwi'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau i ni ar yr Amodau hyn a bydd contract yn cael ei ffurfio pan fyddwn ni'n cyflwyno'r Archeb i chi.
- (iii) Yn amodol ar unrhyw amrywiad o dan amod 15, yr Amodau hyn yw'r unig amodau yr ydym yn barod i gontractio arnynt gyda chi a byddant yn llywodraethu'r Contract gan eithrio'r holl delerau ac amodau eraill.
- (iv) Ni fydd unrhyw delerau nac amodau a ardystir, a gyflwynir gyda neu ac mewn unrhyw ddyfynbris, cydnabyddiaeth, Ymateb i Dendr, derbyniad archeb neu ddogfen debyg arall a ddarperir gennych yn ffurfio rhan o'r Contract ac rydych yn hepgor unrhyw hawl y gallai fod yn rhaid i chi ddibynnu fel arall ar delerau neu amodau o'r fath.
- (v) Pan fo'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau yn cynnwys Gweithrediadau Adeiladu, bydd yr Amodau hyn yn cael effaith fel y'u haddaswyd gan y telerau a nodir yn Atodiad 1.

CYFLENWI Nwyddau

- (i) Byddwch yn sicrhau bod y Nwyddau:
- (a) yn cyfateb â'r Archeb, unrhyw ddisgrifiadau ynddo a'r Manylebau ar eu cyfer;
 - (b) o ansawdd boddhaol (o fewn ystyr Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 (fel y'i diwygiwyd)) ac yn addas at unrhyw ddiben a honnir gennych chi, gan gynnwys mewn unrhyw Ymateb i Dendro neu a wnaed yn hysbys i chi gennym ni, yn benodol (gan gynnwys mewn unrhyw Wahoddiad i Dendro) neu trwy oblygiad, ac yn hyn o beth rydym yn dibynnu ar eich sgil a'ch barn.
 - (c) yn rhydd o ddiffygion o ran dylunio, deunyddiau a chreffftwaith ac aros felly am 12 mis ar ôl eu cyflwyno (neu unrhyw gyfnod arall a nodir yn benodol yn yr Archeb neu'r Fanyleb); ac
 - (d) yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoliadol perthnasol sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu, labelu, Pecynnu, storio, trin a darparu'r Nwyddau.
- (ii) Ar eich traul eich hun, byddwch yn darparu unrhyw raglenni gweithgynhyrchu a chyflenwi y gallem fod yn rhesymol eu hangen i'n hysbysu'n ddi-oed yn ysgrifenedig os yw'r cynnydd ar ei hôl hi neu y gallai unrhyw un o'r raglenni hyn fynd ar ei hôl hi.
- (iii) Ni fyddwch yn gwrthod yn afresymol unrhyw gais gennym i archwilio a phrofi'r Nwyddau wrth weithgynhyrchu, brosesu neu storio ar eich safle cyn eu hanfon, a byddwch yn rhoi'r holl gydweithrediad, cymorth, gwybodaeth a chyfleusterau sydd eu hangen arnom yn rhesymol ar gyfer arolygu a phrofi o'r fath.
- (iv) Os credwn, yn dilyn arolygiad neu brofi o'r fath, nad yw'r Nwyddau'n cydymffurfio neu'n annhebygol o gydymffurfio â'ch addewidion yn amod 3(i) uchod, byddwn yn eich hysbysu o fewn 10 diwrnod i'r arolygiad neu'r profion a byddwch yn cymryd unrhyw gamau adferol sy'n angenrheidiol ar unwaith i sicrhau cydymffurfiaeth.
- (v) Er gwaethaf unrhyw arolygiad neu brofion o'r fath, byddwch yn parhau i fod yn gwbl gyfrifol am y Nwyddau ac ni fydd unrhyw arolygiad neu brofion yn lleihau neu fel arall yn effeithio ar eich dyletswyddau neu rwymedigaethau o dan y Contract, a bydd gennym yr hawl i gynnal arolygiadau a phroffion pellach ar ôl i chi gyflawni unrhyw gamau adferol.

CYFLENWI Nwyddau

- (i) Byddwch yn sicrhau bod y Nwyddau'n cael eu pacio a'u diogelu'n briodol mewn modd sy'n eu galluogi i gyrraedd pen eu taith mewn cyflwr da
- (ii) byddwch yn cyflenwi'r Nwyddau:
- (a) ar y dyddiad a bennir yn yr Archeb neu, os na phennir dyddiad o'r fath, o fewn 14 diwrnod i dyddiad yr Archeb;
 - (b) i'n safle ar Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 3BU neu unrhyw leoliad arall a nodir yn yr Archeb neu fel y'i cyfarwyddir gennym cyn eu cyflwyno (y "Lleoliad Cyflenwi");
 - (c) yn ystod ein Horiau Busnes Arferol (9am i 5pm) neu fel y cyfarwyddwyd gennym ni.
- (iii) Bydd cyflenwi'r Nwyddau'n digwydd ar ôl cwblhau dadlwytho'r Nwyddau yn y Lleoliad Cyflenwi.
- (iv) Ni fyddwch yn cyflenwi'r Nwyddau mewn rhannau heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw. Os cytunir bod y Nwyddau'n cael eu cyflenwi mewn rhannau, caiff yr Archeb ei drin fel un Archeb ac ni ellir ei rannu.
- (v) Os ydych chi neu'ch cludwr yn cyflenwi unrhyw Nwyddau ar yr adeg anghywir neu i'r lle anghywir, yna gallwn dynnu o'r pris unrhyw gostau sy'n deillio o hynny gennym ar gyfer yswiriant dros dro, storio neu gludo. Ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod i Nwyddau a gyflenwir mewn camgymeriad.
- (vi) Bydd gennym hawl i wrthod unrhyw Nwyddau nad ydynt yn unol â'r Archeb ac ni fernir eu bod wedi derbyn unrhyw Nwyddau hyd nes ein bod wedi cael amser rhesymol i'w harolygu ar ôl iddynt gael eu cyflenwi neu o fewn amser rhesymol ar ôl i unrhyw ddiffyg cudd yn y Nwyddau ddod i'r amlwg.

CYFLENWI Gwasanaethau

- (i) Byddwch o'r dyddiad a nodir yn yr Archeb a (lle bo'n berthnasol) drwy gydol yr Archeb yn darparu'r Gwasanaethau i ni.
- (ii) Byddwch yn bodloni unrhyw amserlenni, dyddiadau a cherrig milltir cyflawni ar gyfer y Gwasanaethau a nodir yn yr Archeb neu'r Manylebau.
- (iii) Wrth ddarparu'r Gwasanaethau:
- (a) byddwch yn cydweithredu â ni ym mhob mater sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau, a chydymffurfio â'n cyfarwyddiadau rhesymol a chyfreithlon;

- (b) byddwch yn cyflawni'r Gwasanaethau gyda'r gofal, y sgiliau a'r diwydrwydd gorau ac yn unol ag arfer gorau yn niwydiant, proffesiwn neu fasnach y Cyflenwr;
- (c) byddwch yn defnyddio personél sydd â'r sgiliau a'r profiad addas i gyflawni'r tasgau a neilltuwyd iddynt ac mewn nifer digonol i sicrhau bod eich dyletswyddau'n cael eu cyflawni yn unol â'r Contract;
- (d) byddwch yn sicrhau y bydd y Gwasanaethau a'r Gofynion Cyflawni, yn cydymffurfio â'r Manylebau ac y bydd y Gofynion Cyflawni'n addas i unrhyw ddiben a wnaed yn benodol neu trwy oblygiad i chi gennym ni (gan gynnwys unrhyw un yn ein Gwahoddiad i Dendro);
- (e) byddwch yn darparu ar eich cost eich hun yr holl gyfarpar, offer a cherbydau ac unrhyw eitemau eraill sy'n ofynnol er mwyn darparu'r Gwasanaethau;
- (f) byddwch yn defnyddio deunyddiau, safonau a thechnegau o'r ansawdd gorau, a sicrhau bod y Gofynion Cyflawni a deunyddiau eraill a gyflenwir neu a ddefnyddir yn y Gwasanaethau neu a drosglwyddir i ni, yn rhydd o ddiffygion o ran crefftwaith, eu gosod a'u dyluniad; a
- (g) ni fyddwch yn gwneud neu hepgor gwneud unrhyw beth a allai beri i ni golli unrhyw drwydded, awdurdod, cydsyniad neu ganiatâd yr ydym yn dibynnu arno at ddbenion cynnal ein busnes, a'ch bod yn cydnabod y gallwn ddibynnu neu weithredu ar y Gwasanaethau.

6. PERSONÉL ALLWEDDOL

- (i) Byddwch yn defnyddio pob ymdrech resymol i sicrhau bod y Personél Allweddol yn parhau i fod yn weithwyr i chi a'u bod ar gael i gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau yn ystod tymor y Contract.
- (ii) Byddwch yn ein hysbysu'n ysgrifenedig am unrhyw fater neu amgylchiad a allai effeithio ar argaeledd y Personél Allweddol yn brydlon ar ôl dod yn ymwybodol o'r un peth.
- (iii) Os nad oes unrhyw un o'r Personél Allweddol ar gael ar unrhyw adeg yn ystod y Contract, byddwch yn cynnig rhywun arall addas (gyda lefelau cyfatebol o sgil a phrofiad tebyg) i ni yn ysgrifenedig. Ni chaniateir i unrhyw bersonél allweddol gymryd rhan yn narpariaeth y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau oni bai ein bod wedi cymeradwyo hynny'n ysgrifenedig ymlaen llaw (ni ddylai cymeradwyaeth o'r fath gael ei dal yn ôl neu ei gohirio'n afresymol). Os na ellir dod o hyd i rywun arall sy'n rhesymol dderbyniol i ni, bydd gennym hawl drwy hysbysiad ysgrifenedig i chi i derfynu'r Contract ar unwaith.

7. DEUNYDD PACIO

Oni nodir yn wahanol yn y Contract, ystyrir bod Deunydd Pacio'n cael ei gasglu a'i waredu gennych ar eich traul eich hun. Ni fydd yn rhaid i ni ddychwelyd unrhyw Ddeunydd Pacio atoch. Os gwneir unrhyw gytundeb ysgrifenedig penodol i Ddeunydd Pacio gael ei ddychwelyd gennym ni ar ôl ei gyflenwi, rhaid i chi roi cyfarwyddiadau gwaredu llawn i ni cyn yr amser cyflenwi. Rhaid marcio deunydd pacio'n glir i ddangos i bwy y mae'n perthyn. Rhaid i chi wneud trefniadau addas cyn unrhyw ddychweliad i dalu am gost yr holl gludiant a thrin cysylltiedig. Ni fyddwn yn atebol am unrhyw Ddeunydd Pacio a gollir neu a ddifrodor wrth ei gludo.

8. DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- (i) Byddwch yn sicrhau eich bod bob amser yn cadw'r holl drwyddedau, caniatadau, awdurdodiadau, cydsyniadau a thrwyddedau sydd eu hangen i gyflawni eich r dyletswyddau o dan y Contract mewn perthynas â'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithgynhyrchu, Pecynnu, pacio a chyflenwi'r Nwyddau.
- (ii) Rydych yn gwarantu bod yr holl wybodaeth a roddir i ni mewn cysylltiad â'r Contract, gan gynnwys mewn unrhyw ddyfynbrisiau neu Fanylebau neu Ymateb i Dendr yn gyflawn, yn gywir ac nad yw'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd.
- (iii) Byddwch yn cydymffurfio â'n Polisiâu Gorfodol;
- (iv) Byddwch yn cadw'r holl ddeunyddiau, cyfarpar ac offer, lluniadau, Cadw manylebau a data a roddwyd gennym i chi (y "Deunyddiau Cwsmeriaid") yn ddiogel ar eich risg eich hun, cynnal y Deunyddiau Cwsmeriaid mewn cyflwr da nes i chi eu dychwelyd atom, a pheidio â gwaredu na defnyddio'r Deunyddiau Cwsmeriaid ac eithrio yn unol â'n cyfarwyddiadau neu'n awdurdodiad ysgrifenedig;
- (v) Byddwch yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a safonau perthnasol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd;

9. MEINTIAU A GWERTHOEDD BUSNES

Darperir unrhyw amcangyfrifon ysgrifenedig neu ar lafar o feintiau neu werthoedd posibl busnes, a nodir gennym o dan y Contract (er enghraifft mewn unrhyw Wahoddiad i Dendro), ond nad ydynt yn rhan o Archeb, fel canllawiau'n unig ac nid ydynt yn gyfrwymol ac ni roddir gwarant ynghylch i ba raddau y defnyddir y Contract yn gyffredinol.

10. PRIS

- (i) Byddwch yn gwerthu'r Nwyddau i ni neu'n darparu'r Gwasanaethau am y pris cadarn a nodir yn y Contract, heblaw na nodir pris o'r fath yn y Contract a'n bod wedi cytuno ar brisiau rhestr mewn perthynas â darparu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau, ac os felly bydd y prisiau rhestr hynny sydd mewn grym ar ddyddiad y Contract yn berthnasol.

- (ii) Bydd y pris yn cynnwys yr holl daliadau am storio, Pecynnu, morgludiant, cludo, yswiriant a chyflenwi unrhyw Nwyddau i'r cyfeiriad cyflenwi, gosod a chomisiynu (fel y bo'n berthnasol) ac unrhyw dollau, trethi neu ardollau eraill, ac eithrio treth ar werth.
- (iii) Ni ellir cynyddu pris p'un ai o ganlyniad i gynydd mewn costau deunyddiau, llafur neu drafnidiaeth, amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid neu fel arall heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.
- (iv) Bydd gennym hawl i unrhyw ddisgownt am dalu'n brydlon, swmp-brynu neu faint pryniant a roddir gennych yn arferol, p'un a ddangosir hynny yn eich telerau ac amodau gwerthu ai peidio.

11. **TALU**

- (i) Ac eithrio fel y nodir fel arall ar yr Archeb, bydd gennych hawl i'n hanfonebu am y Pris unrhyw bryd ar ôl cwblhau'r gwaith o ddarparu'r Nwyddau a/neu gyflawni'r Gwasanaethau yn unol â thelerau ac amodau'r Contract ac i'n boddhad rhesymol.
- (ii) Yn amodol ar amod 12, byddwn yn talu anfonebau a wnaed yn gywir a heb eu herio o fewn 30 diwrnod i'w derbyn. Rhaid cyfeirio eich anfoneb at yr adran a nodir ar yr Archeb a rhaid iddi ddyfynnu rhif llawn yr Archeb. Bydd TAW, lle bo hynny'n berthnasol, yn cael ei dangos ar wahân ar bob anfoneb fel tâl ychwanegol net. Ni fyddwn yn cael ein dal yn gyfrifol am oedi wrth dalu a achosir gan eich methiant i gydymffurfio â'n cyfarwyddiadau anfonebu.
- (iii) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau amodau 11(i), 11(ii) a 27, os na fydd unrhyw swm sy'n ddyledus i chi o dan y Contract yn cael ei dalu gennym ni ar neu cyn y dyddiad dyledus, bydd gennych hawl i godi llog ar y swm hwyr o'r dyddiad y daeth y taliad yn ddyledus tan y dyddiad y byddwch yn cael taliad (p'un ai bod hynny cyn neu ar ôl dyfarniad yn ein herbyn), ar gyfradd o 2% y flwyddyn uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Bydd llog o'r fath yn cronni'n ddyddiol ac yn cael ei adlogi bob chwarter.
- (iv) Bydd gennym hawl i osod yn erbyn y Pris unrhyw symiau sy'n ddyledus i ni gennych chi.

12. **METHU Â CHYFLAWNI**

(i) **Amseroedd cyflenwi ar gyfer Nwyddau a Gofynion Cyflawni**

Os na chaiff y Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni neu unrhyw ran ohonynt eu cyflenwi erbyn yr amser neu'r amseroedd a bennir yn y Contract, yna gallwn drwy hysbysiad ysgrifenedig ganslo unrhyw weddill Nwyddau a/neu Ofynion Cyflawni nad ydynt wedi'u cyflenwi. Os nad yw rhan o'r Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni wedi'u cyflenwi erbyn yr amser neu'r amseroedd a bennir yn y Contract, yna gallwn, yn ôl ein disgrisiwn, wrthod unrhyw ran o'r Nwyddau neu'r Gofynion Cyflawni sydd eisoes wedi'u cyflenwi.

(ii) **Gwasanaethau**

Yn achos Gwasanaethau nad ydynt yn cael eu cyflawni i'r safonau neu'r lefelau ansawdd sy'n ofynnol gan y Contract neu o fewn y rhaglen o ddyddiadau neu amseroedd sy'n ofynnol gan y Contract, efallai y byddwn yn mabwysiadu un neu fwy o'r atebion canlynol:

- (a) bod y gwaith yn cael ei gyflawni drwy ddulliau eraill a bod unrhyw gostau ychwanegol a achosir yn rhesymol felly yn cael eu codi arnoch;
- (b) didynnu o unrhyw anfoneb a gyflwynir gennych unrhyw swm sy'n rhesymol yn ein barn ni am y Gwasanaethau anfodhaol dan sylw neu i dalu unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o amod 12(ii)(a); a/neu
- (c) terfynu'r Contract naill ai ar gyfer y Gwasanaethau penodol nad ydynt wedi'u cyflawni'n unol â'r Contract neu am yr holl Wasanaethau. Yn y naill achos neu'r llall, ni fydd gennych hawl i daliad ar ffurf iawndal, ac eithrio cydnabyddiaeth briodol am y rhannau hynny o'r Gwasanaeth a gyflawnwyd yn foddhaol ond sy'n ddarostyngedig i amod 12(ii)(a).

Mewn achos o derfynu, byddwch yn cydweithredu wrth drosglwyddo Gwasanaethau, yn enwedig o dan ddarpariaethau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 fel y'u diwygiwyd (TUPE), i unrhyw sefydliad arall yn unol â chyngor gennym.

(iii) **Nwyddau a Gofynion Cyflawni**

Oni nodir yn wahanol yn yr Archeb, bydd unrhyw Nwyddau a/neu Ofynion Cyflawni a ddarperir i ni yn dod o dan isafswm cyfnod gwarant o 12 mis calendr o gyflenwi Nwyddau a/neu Gynhyrchion o'r fath. Eich gwarant yw y bydd Nwyddau a/neu Ofynion Cyflawni o'r fath yn cydymffurfio â'r gofynion yn amod 3(i). Heb ragfarnu unrhyw rwymedi arall, os na ddarperir unrhyw Nwyddau a/neu Ofynion Cyflawni neu os nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion yn amod 3(i) yn ystod y cyfnod gwarant, bydd gennym hawl:

- (a) ei gwneud yn ofynnol i chi atgyweirio'r Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni neu gyflenwi Nwyddau a/neu Gynhyrchion newydd sy'n cydymffurfio â gofynion o'r fath o fewn 14 diwrnod; neu

- (b) yn ôl ein dewis ni yn unig, a ph'un a ydym wedi gofyn i chi atgyweirio'r Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni neu ddarparu unrhyw Nwyddau a/neu Ofynion Cyflawni newydd o'r blaen, i drin y Contract fel un a derfynwyd o ganlyniad i'ch toriad a'i gwneud yn ofynnol i unrhyw ran o'r Pris a dalwyd i chi gael ei ad-dalu.

Bydd atgyweiriadau neu amnewidiadau yn unol â'r amod 12 hwn yn cael eu cynnwys o dan y gwarantiaid uchod ond am gfnod o 12 mis o'u derbyn gennym ni.

13. TERFYNU

- (i) Bydd gennym hawl i ganslo'r Archeb mewn perthynas â'r cyfan neu ran yn unig o'r Nwyddau a/neu Wasanaethau heb atebolrwydd i chi drwy roi rhybudd i chi ar unrhyw adeg cyn iddynt gael eu cyflenwi neu eu cyflawni oni bai bod Nwyddau o'r fath, yn achos Nwyddau, wedi'u cynhyrchu'n benodol i'n gofynion ni. Os felly, ein hunig atebolrwydd fydd talu am bris y Nwyddau yr ydym wedi arfer ein hawl i'w canslo, llai eich arbediad net o gost sy'n deillio o ganslo.
- (ii) Bydd gennym hawl i derfynu'r Contract heb atebolrwydd drwy roi hysbysiad i chi ar unrhyw adeg os:
- (a) ydych yn atal, neu'n bygwth atal, talu'ch dyledion neu'n methu â thalu'ch dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus neu'n cyfaddef anallu i dalu'ch dyledion neu (fel cwmni) yr ymddengys na allwch dalu'ch dyledion o fewn ystyr adran 123 o Ddeddf Ansofedd 1986 neu (fel unigolyn) os ymddengys na allwch dalu eich dyledion neu nad oes gennych unrhyw obaith rhesymol o wneud hynny, yn y naill achos neu'r llall, o fewn ystyr adran 268 o Ddeddf Ansofedd 1986 neu (fel partneriaeth) mae gennych unrhyw bartner y mae unrhyw un o'r uchod yn berthnasol iddo;
- (b) ydych yn dechrau trafodaethau gyda'r cyfan neu unrhyw ddsbarth o'ch credydwr gyda'r bwriad o aildefnu unrhyw rai o'ch dyledion, neu wneud cynnig ar gyfer neu ymrwymo i unrhyw gyfaddawd neu drefniant gyda'ch credydwr, ac eithrio (fel cwmni) at ddibenion cynllun ar gyfer uno diddyled ag un neu fwy o gwmnïau eraill neu eich uniad diddyled yn unig;
- (c) oes cais yn cael ei ffeilio, hysbysiad yn cael ei gyflwyno, penderfyniad yn cael ei wneud, gorchymyn yn cael ei wneud, ar gyfer neu mewn cysylltiad â'ch dirwyn i ben (fel cwmni) ac eithrio unig ddiben cynllun ar gyfer eich uniad diddyled ag un neu fwy o gwmnïau eraill neu eich adluniad diddyled;
- (d) ydych chi (fel unigolyn) yn destun gorchymyn deiseb methdaliad;
- (e) oes credydwr neu lyffetheiriwr i chi'n atafaelu neu'n meddiannu, neu os yw proses atafaelu, cyflawni, secwestra neu broses arall o'r fath yn cael ei gorfodi neu ei herlyn yn ei herbyn, y cyfan neu unrhyw ran o'ch asedau ac nad yw'r atafaeliad neu broses o'r fath ei gyflawni o fewn 14 diwrnod;
- (f) oes cais yn cael ei wneud i'r llys, neu os gwneir gorchymyn, ar gyfer penodi gweinyddwr neu os rhoddir hysbysiad o friad i benodi gweinyddwr neu os penodir gweinyddwr drosoch chi (fel cwmni);
- (g) oes deiliad arwystl ansefydlog dros eich asedau (fel cwmni) wedi dod yn gymwys i benodi neu wedi penodi derbynydd gweinyddol;
- (h) daw person yn gymwys i benodi derbynydd dros eich asedau neu y penodir derbynydd dros eich asedau;
- (i) oes unrhyw ddigwyddiad neu achosion yn digwydd, mewn perthynas â chi mewn unrhyw awdurdodaeth yr ydych yn ddarostyngedig iddi sy'n cael effaith sy'n cyfateb i neu sy'n debyg i unrhyw un o'r digwyddiadau a grybwyllir yn amod 13(ii)(a) i amod 13(iv)(g) (cynhwysol); neu
- (j) ydych yn atal dros dro neu'n bygwth atal dros dro, neu'n rhoi'r gorau i fygwth rhedeg y cyfan neu ran sylweddol o'ch busnes.
- (iii) Gallwn derfynu'r Contract drwy roi 30 Diwrnod Busnes o rybudd ysgrifenedig i chi os:
- (a) ydych yn torri unrhyw un o delerau'r Contract hwn dro ar ôl tro mewn modd sy'n golygu bod cyfiawnhad rhesymol dros lunio'r farn bod eich ymddygiad yn dangos nad ydych yn bwriadu rhoi telerau'r Contract hwn ar waith neu na allwch eu rhoi ar waith;
- (b) yw'r Contract wedi'i addasu'n sylweddol fel y byddai angen proses dendro newydd yn unol â rheoliad 72(9) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015; neu
- (c) ydych chi, ar adeg dyfarnu'r Contract, wedi bod yn un o'r sefyllfaoedd y cyfeirir atynt yn rheoliad 57(1) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, gan gynnwys o ganlyniad i weithredu rheoliadau 57(2) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, ac y dylech felly fod wedi'ch eithrio o unrhyw broses dendro a gynhelir mewn perthynas â'r Contract.

14. TERFYNU AM ANUFUDD-DOD NEU DORRI RHEOLAU

Os byddwch yn torri neu'n methu â chadw at unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract hwn, gallwn roi hysbysiad ysgrifenedig i chi o doriad neu ddiffyg arfer o'r fath a bydd gennych 28 diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad i gywiro'r toriad neu'r diffyg arfer. Ar gyfer achos perthnasol o dorri'r Contract, rhoddir cyfnod o 7 diwrnod ar y mwyaf i gywiro'r toriad. Os na fyddwch yn cywiro'r toriad, y diffyg arfer neu'r tor-cytundeb perthnasol o fewn yr amser a nodir, bydd gennym yr hawl i derfynu'r Contract ar unwaith a heb gosb.

15. AMRYWIADAU

- (i) Bydd gennym hawl, cyn eu iddynt gael eu darparu, i anfon Newid i'r Archeb atoch yn ychwanegu at, dileu neu addasu'r Nwyddau a'r Gwasanaethau.
- (ii) Os yw'r Newid i'r Archeb yn achosi newid i'r Pris neu'r dyddiad dosbarthu, rhaid i chi roi gwybod i ni heb oedi gormodol o unrhyw Bris a dyddiad dosbarthu newydd. Rhaid i chi ganiatáu cyfnod rhesymol o amser i ni ystyried unrhyw Bris newydd arfaethedig ac, os yw'n briodol, ddyddiad cyflwyno newydd arfaethedig.
- (iii) Dim ond os bydd ein Swyddog Awdurdodedig yn derbyn y Pris a'r dyddiad cyflwyno newydd yn ysgrifenedig o fewn yr amser a nodir gennych y daw'r Newid i'r Archeb i rym.
- (iv) Os bydd ein Swyddog Awdurdodedig yn gwrthod y Pris neu'r dyddiad cyflawni diwygiedig, bydd ganddo'r hawl i arfer yr opsiwn naill ai i gadarnhau y bydd cyflawni'r Contract yn aildechrau ar unwaith fel pe na bai'r Newid i'r Archeb a nodwyd wedi'i gyhoeddi, neu y gellir canslo'r Archeb wreiddiol.

16. EIDDO A RISG MEWN NWYDDAU

- (i) Byddwch yn ysgwyddo pob risg o golled neu ddifrod i'r Nwyddau nes eu bod wedi'u danfon a'u dadlwytho'n gywir i'r Lleoliad Cyflenwi, a byddwch yn eu hyswiro yn unol â hynny. Yn ddarostyngedig i amodau 4(vi) a 12, bydd y risg o ran y Nwyddau'n cael ei throsglwyddo i ni wrth i'r Nwyddau gael eu darparu yn unol â'r Contract.
- (ii) Bydd perchnogaeth y Nwyddau yn trosglwyddo i ni pan fyddant wedi cael eu talu amdanynt yn llawn.

17. ATEBOLRWYDD AC INDEMNIAID

- (i) Byddwch yn ein hindemnio ac yn parhau i wneud hynny rhag pob rhwymedigaeth, cost, traul, iawndal a cholled (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw golled uniongyrchol, anuniongyrchol neu ganlyniadol, colli elw, colli neu ddifrodi enw da, a'r holl log, cosbau a chostau cyfreithiol (a gyfrifir ar sail indemniad llawn) a'r holl gostau a threuliau proffesiynol rhesymol eraill) a ddioddefir neu a ysgwyddir gennym o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri'r Contract neu gyflawni esgeulus neu fethiant neu oedi wrth gyflenwi'r Gwasanaethau neu ddarparu'r Nwyddau gennych chi, eich gweithwyr neu'ch isgontractwyr.
- (ii) Heb ragfarnu gofynion amod 17 (iii) na fydd gofynion yr amod hwn 17(ii) yn berthnasol iddynt, bydd cyfanswm atebolrwydd cyfanredol pob parti i'r parti arall o dan neu mewn cysylltiad â'r Contract, yn cael ei gapio ar gyfanswm gwerth y Contract, ni waeth faint o hawliadau a wneir, neu unrhyw symiau eraill a nodir yn yr Archeb.
- (iii) Ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn cyfyngu nac yn eithrio atebolrwydd y naill barti na'r llall am:
 - (a) farwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o esgeulustod;
 - (b) tor-cytundeb neu gyflawniad esgeulus neu ddiffyg cyflawni'r Contract ar ran y Cyflenwr;
 - (c) twyll neu gamliwio twyllodrus;
 - (d) torri'r telerau a awgrymir gan adran 12 o Ddeddf Gwerthu Nwyddau 1979; neu
 - (e) camymddwyn bwriadol neu fwriadol y parti hwnnw, ei gyflogeion, ei asiantau neu ei isgontractwyr.

18. YSWIRIANT

- (i) Byddwch, o ddyddiad yr Archeb, yn rhoi ar waith ac yn cynnal yn ystod yr amser y mae'n ei gymryd i chi ddarparu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau o dan y Contract ac am gyfnod o 6 blynedd wedi hynny bolisiau yswiriant addas gyda chwmnïau yswiriant sydd ag enw da neu danysgrifwyr yn erbyn pob risg a yswirir yn ei erbyn fel arfer gan gyflenwr doeth Nwyddau a/neu Wasanaethau o'r fath a thalu'r holl bremiymau sy'n ddyledus mewn perthynas â hynny. Deallir a chytunir mai eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau bod swm yr yswiriant yn unol â'r bolisiau yr effeithir arnoch yn ddigonol yn unol ag arfer ac ymarfer y diwydiant ac amgylchiadau penodol y Contract. Heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr uchod, byddwch yn yswiro'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau am eu gwerth amnewid llawn yn erbyn pob risg o ddifrod a cholled, oni bai bod yr Archeb neu'r Fanyleb yn datgan fel arall.
- (ii) Byddwch yn rhoi copïau i ni, ar gais, o'r holl bolisiau yswiriant y cyfeirir atynt yn yr amod hwn neu wiriad brocer o yswiriant i ddangos bod yr yswiriant gofynnol a nodir yn amod 18(i) ar waith, ynghyd â derbynebau neu dystiolaeth arall o dalu'r premiymau diweddaraf sy'n ddyledus o dan y bolisiau hynny.
- (iii) Os byddwch, am ba reswm bynnag, yn methu â rhoi'r yswiriant gofynnol ar waith, gallwn ond ni fydd yn rhaid i ni wneud trefniadau amgen i ddiogelu ein buddiannau a gallwn adennill costau trefniadau o'r fath gennych.

- (iv) Ni fydd telerau unrhyw yswiriant na swm yr yswiriant yn eich rhyddhau o unrhyw rwymedigaethau o dan y Contract.

19. ORIAU GWAITH

Wrth gyflawni Gwasanaethau ar ein safle, gallwn nodi'r cyfnod y byddwch yn cyflawni eich gweithrediadau a/neu y bydd y gwaith hwnnw'n cael ei wneud yn y fath fodd fel yr ymyrrir â'n busnes cyn lleied â phosibl.

20. GWEITHIO AR EIN SAFLE

- (i) Os yw'r Contract yn cynnwys Gwasanaethau yr ydych yn eu cyflawni ar ein safle neu osod Nwyddau ar ein safle, byddwch, os gofynnwn ni yn ysgrifenedig, yn darparu'r dogfennau canlynol i'w defnyddio ar gyfer adolygu, naill ai cyn neu yn ystod y Contract:

- (a) eich polisi diogelwch;
- (b) eich cynllun diogelwch;
- (c) eich cynllun diogelwch tân;
- (d) eich asesiadau risg;
- (e) eich ystadegau damweiniau am y 5 mlynedd diwethaf;
- (f) eich dogfennau yswiriant dilys;
- (g) unrhyw hysbysiad gwella a gawsoch; ac
- (h) unrhyw erlyniad neu erlyniad yn eich erbyn sydd yn yr arfaeth o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

- (ii) Byddwch yn cyflawni eich dyletswyddau o dan y Contract (gan gynnwys y rhai mewn perthynas â'r Gwasanaethau) yn unol â:

- (a) yr holl ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol ynghylch iechyd a diogelwch; ac
- (b) ein Polisi Iechyd a Diogelwch tra byddwch ar ein safle.

21. ERTHYGLAU AR FENTHYG A DEFNYDDIO GWYBODAETH

Bydd yr holl offer, deunyddiau, lluniadau, Manylebau a chyfarpar a data eraill (yr "Erthyglau") a fenthycir gennym i chi mewn cysylltiad â'r Contract yn parhau i fod yn eiddo i ni bob amser ac yn cael eu dychwelyd i ni ar alw mewn cyflwr da a defnyddadwy (caniateir traul deg) ac maent i'w defnyddio gennych chi at ddibenion cwblhau'r Contract yn unig. Rydych yn cytuno na wneir unrhyw gopi o unrhyw un o'r Erthyglau heb ganiatâd ysgrifenedig ein Swyddog Awdurdodedig. Hyd nes y byddwch yn dychwelyd yr holl Erthyglau i ni byddant ar eich risg chi ac wedi'u hyswirio yn erbyn y risg o golled, lladrata neu ddifrod gennych ar eich cost chi. Bydd unrhyw golled neu ddifrod i Erthyglau o'r fath yn cael ei unioni gennych ar eich cost chi gan gynnwys, yn achos colli allweddli safleoedd, neu gardiau drysau cyfrifiadurol, y costau ail-weddu sy'n angenrheidiol i adennill lefel wreiddiol diogelwch yr adeiladau. Rhaid gwaredu pob sgrap sy'n deillio o gyflenwi Erthyglau o'r fath yn ôl ein disgresiwn a rhaid talu pob elw o werthu sgrap o'r fath i ni'n ddi- oed ac yn llawn.

22. PERCHNOGAETH GOFYNION CYFLAWNI

- (i) Oni bai bod yr Archeb yn datgan fel arall, rydych yn cydnabod ac yn cytuno y bydd unrhyw a phob Hawl Eiddo Deallusol o safbwynt y Gofynion Cyflawni a grëir neu eu datblygir gennych chi ar ein cyfer mewn cysylltiad â'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau, ond heb gynnwys unrhyw Ofynion Cyflawni sy'n bodoli eisoes neu Ofynion Cyflawni trydydd parti ("Hawliau Eiddo Deallusol y Gofynion Cyflawni") yn eiddo i ni ac wedi eu breinio ynom yn llwyr a thrwy hynny rydych yn:

- (ii)
- (a) Aseinio i ni'n llwyr gyda gwarant teitl llawn yr holl hawl, teitl a budd ledled y byd yn ac i unrhyw a phob hawlfraint, hawliau o ran natur yr hawlfraint, hawliau cronfeydd data a hawliau dylunio heb eu cofrestru yn y DU ac Ewrop sydd wedi'u cynnwys o fewn Hawliau Eiddo Deallusol y Gofynion Cyflawni i'r graddau y bydd yr holl gyfryw hawliau yn ein breinio ynom yn awtomatig ac yn syth ar y dyddiad y crëir y cyfryw hawliau gennych chi; a
 - (b) Chytuno i aseinio i ni'n llwyr gyda gwarant teitl llawn bob hawl, teitl a budd ledled y byd yn ac i holl Hawliau Eiddo Deallusol eraill y Gofynion Cyflawni

am y cyfnod llawn felly, yn cynnwys pob adnewyddiad ac estyniad, ynghyd â phob hawl, budd neu bŵer yn codi neu a geir, yn cynnwys yr hawl i erlyn am iawn ac atebion eraill o safbwynt unrhyw dor-amod rhannol neu bresennol o Hawliau Eiddo Deallusol y Gofynion Cyflawni.

- (iii) Lle y bo'r Archeb yn nodi nad yw Hawliau Eiddo Deallusol y Gofynion Cyflawni wedi eu haseinio i ni gyda theitl llwyr ond yn hytrach wedi eu trwyddedu i ni gennych chi, bydd yn drwydded neilltuedig i ni ddefnyddio Hawliau Eiddo Deallusol y Gofynion Cyflawni i ddiben ein mwynhad llawn o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau ac a fydd yn goroesi unrhyw derfynu ar yr amodau hyn, oni bai y cytunwyd yn wahanol rhwng y ddau barti.

23. TORRI HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL

- (i) Ac eithrio'r Nwyddau a wnaethpwyd yn ôl ein dyluniad, byddwch yn gwarantu na fydd y Nwyddau, y Gofynion Cyflawni ac unrhyw feddalwedd o fewn y Nwyddau neu'r Gofynion Cyflawni'n torri unrhyw batent, dyluniad cofrestredig, nod masnach, hawlfraint neu hawliau eraill gan drydydd parti a byddwch yn ein digolledu am bob achos, hawliad, costau a threuliau a gyfyd neu a achoswyd gan unrhyw achos neu achos honedig o dorri ar unrhyw hawl o'r fath o ganlyniad i'n defnydd neu ein perchnogaeth o'r cyfryw Nwyddau, Gofynion Cyflawni neu feddalwedd.
- (ii) Os gwneir cyhuddiad ar unrhyw adeg fod torri patent, dyluniad cofrestredig neu hawlfraint wedi digwydd yng nghyswllt y Nwyddau'r neu'r feddalwedd neu os yw'n debygol o ddigwydd yn eich barn resymol chi, gallwch ar eich cost eich hun addasu'r Nwyddau neu'r Gofynion Cyflawni neu eu cyfnewid, heb dynnu oddi ar y perfformiad cyffredinol. Ar yr un pryd byddwch yn gwneud yn iawn am unrhyw golled ar ddefnydd o'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau yn ystod yr addasu neu'r cyfnewid, er mwyn osgoi'r torri hawl.

24. POLISI AMGYLCHEDDOL

- (i) Rhaid i chi gydymffurfio â'ch dyletswyddau o dan unrhyw ddeddf amgylcheddol berthnasol ac unrhyw bolisi amgylcheddol a roddwyd ar waith gennym ni ac a ddygir i'ch sylw o bryd i'w gilydd.
- (ii)
- (iii) Rydym yn sefydliad sy'n ymwybodol o'r amgylchedd a rhaid i chi wneud pob ymdrech i leihau effaith amgylcheddol y prosesau wrth ddylunio, gweithgynhyrchu ac adeiladu'r Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni a gyflenwir gennych chi a'ch isgontractwyr i ni ac wrth ddarparu'r Gwasanaethau. Ystyrir y prosesau dan sylw mewn perthynas â lleihau'r ynni a ddefnyddir, defnyddio deunyddiau y gellir ailgylchu lefel uchel o'u cynnwys, lleihau gwastraff a gynhyrchir a defnyddio dulliau gwaredu da yn ogystal ag ailgylchu'r cynnyrch ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol. Bydd unrhyw ddyluniad yn cynnwys ystyried lleihau effaith amgylcheddol y cynnyrch yn ystod y broses weithgynhyrchu a thrwy gydol cylch oes y Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni.

25. ASEINIO AC ISGONTRACTIO

- (i) Ni fyddwch heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gennym (ni ddylid defnyddio'r cyfryw ganiatâd yn afresymol, ei atal na'i ohirio) aseinio, newyddu, trosglwyddo, codi tâl neu ymdrin mewn unrhyw ffordd arall â'r Contract neu unrhyw hawl dan y Contract neu honni gwneud hynny, nac is-gontractio unrhyw neu bob un o'r dyletswyddau o dan y Contract.
- (ii) Byddwch yn darparu'n brydlon i ni unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani gennym o safbwynt unrhyw ymwneud arfaethedig â'r Contract a hysbysir i ni'n unol ag amod 25(i), yn cynnwys unrhyw isgontractio. Mewn perthynas ag unrhyw isgontractio neu aseinio bydd y cyfryw wybodaeth yn cynnwys manylion ynghylch yr is-gontractwr neu gynrychiolydd arfaethedig a'i allu technegol, profiad a sefyllfa ariannol.
- (iii) Er mwyn osgoi amheuaeth a heb gyfyngu ar ei ddisgresiwn mewn unrhyw ffordd, bydd y ddau barti'n cytuno bydd yn rhesymol i ni wrthod ein caniatâd i chi isgontractio, aseinio neu ymwneud arall a gytunwyd gennych chi os:
- (a) ydym yn ystyried nad yw'r is-gontractwr neu'r cynrychiolydd arfaethedig yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dewis a amlinellir mewn unrhyw broses dendro a gynhelir gennym mewn perthynas â'r Contract; neu
- (b) ydym o'r farn y gallai isgontractio, aseinio neu ymwneud arall arwain at fethiant gennych chi (neu'r trydydd parti arfaethedig perthnasol) i gyflawni'r meini prawf ar gyfer dethol a amlinellir mewn unrhyw broses dendro a gynhelir gennym mewn perthynas â'r Contract; neu
- (c) ydym yn credu y gallai isgontractio, aseinio neu ymwneud o'r fath:
- (i) arwain at addasu'r Contract yn sylweddol
- (iv) Bydd unrhyw isgontractio gennych chi a ganiateir gennym ni yn:
- (a) cael eich caffael gennych ar delerau ac amodau sy'n gyfwerth (i'r graddau y mae'n fasnachol resymol) â'r telerau ac amodau a nodir yn y Contract. Byddwch hefyd yn ystyried ac yn dilysu unrhyw anfonebau a gyflwynir i chi gan yr is-gontractwr yn brydlon ac yn talu unrhyw symiau sy'n ddyledus o dan y cyfryw anfonebau ddim hwyrach na chyfnod o 30 diwrnod o'r dyddiad y maent yn ddyledus; ac

- (b) ni'ch rhyddheir o unrhyw ddyletswyddau o dan y Contract a byddwch yn gyfrifol am weithredoedd a hepgoriadau eich isgontractwyr fel pe baent yn eiddo i chi eich hun.
- (v) Rhag amheuaeth, bydd hawl gennym i aseinio, amnewid, trosglwyddo, isgontractio a gwaredu fel arall unrhyw neu bob un o'n hawliau a'n ddyletswyddau o dan y Contract heb eich caniatâd ymlaen llaw, a byddwch yn ymrwmo i gytundebau o'r fath, gan gynnwys gweithredoedd newyddu, yn ôl ein cais o bryd i'w gilydd mewn cysylltiad â hynny.

26. MATERION Y TU HWNT I REOLAETH

- (i) Ni fydd y naill barti na'r llall yn torri'r Contract nac yn atebol am oedi o ran cyflawni, neu fethu â chyflawni, unrhyw un o'i ddyletswyddau o dan y Contract os yw oedi neu fethiant o'r fath yn deillio o ddigwyddiadau, amgylchiadau neu achosion y tu hwnt i'w reolaeth resymol ("Digwyddiad Force Majeure").
- (ii) Byddwch yn gwneud pob ymdrech resymol i liniaru effaith Digwyddiad Force Majeure ar gyflawni eich ddyletswyddau.
- (iii) Os bydd Digwyddiad Force Majeure yn atal, yn llesteirio neu'n gohirio cyflawni eich ddyletswyddau am gyfnod parhaus o fwy na 30 Diwrnod Busnes, gallwn derfynu'r Contract ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i chi.

27. DATRYS ANGHYDFOD

- (i) Bydd pob anghydfod neu wahaniaeth rhyngom ni a chi'n deillio o neu mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau a gyflawnir o dan y Contract yn cynnwys unrhyw gwestiwn ynglŷn â'i neu â'u bodolaeth, dilysrwydd neu derfyniad ("**Anghydfod**"), ar gais ysgrifenedig y naill barti neu'r llall, yn cael ei gyfeirio at ein rheolwyr Contract perthnasol.
- (ii) Os na fydd ein rheolwyr Contract perthnasol yn cytuno ar ddatrysiad i'r Anghydfod o fewn 7 diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y cyfryw gais, bydd yr Anghydfod, ar gais ysgrifenedig y naill barti neu'r llall, yn cael ei gyfeirio at sylw ein llywydd ac i'ch rheolwr gyfarwyddwr, prif weithredwr neu swyddog cyfatebol.
- (iii) Os nad yw'r unigolion y cyfeiriwyd atynt yn amod 27 (ii) yn cytuno ar ddatrysiad i'r Anghydfod o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y cyfryw gais, gallai'r naill barti neu'r llall ofyn i'r parti arall drwy rybudd ysgrifenedig geisio setlo'r Anghydfod yn unol â Gweithdrefn Model Cyfryngu'r Ganolfan Datrys Anghydfod ("**CEDR**"). O fewn 7 diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y cyfryw gais bydd y ddau barti'n cynnig cyfryngwr ac yn ceisio cytuno ar ddewis cyfryngwr.
- (iv) Os nad yw'r ddau barti'n gallu cytuno ar gyfryngwr o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y cyfryw gais, y cyfeirir ato yn 28 (iii) neu os nad yw'r cyfryngwr y cytunwyd arno'n gallu neu'n anfodlon gweithredu ac nad yw'r ddau barti'n gallu cytuno ar ddewis arall, gallech chi neu ni wneud cais i CEDR benodi cyfryngwr cyn gynted ag y mae'n ymarferol bosibl.
- (v) O fewn 7 diwrnod i benodi cyfryngwr, byddwch chi a ni'n cyfarfod y cyfryngwr er mwyn cytuno ar raglen i gyfnewid unrhyw wybodaeth berthnasol a'r strwythur i'w fabwysiadu ar gyfer y cyd-drafodaethau.
- (vi) Bydd yr holl gyd-drafodaethau'n gysylltiedig â'r Anghydfod yn cael eu cynnal mewn cyfrinachedd llwyr a heb ragfarnu hawliau'r ddau barti mewn unrhyw achosion yn y dyfodol.
- (vii) Os deuir i unrhyw gytundeb ynglŷn â datrys yr Anghydfod, bydd y cyfryw gytundeb yn cael ei ysgrifennu ac, unwaith y caiff ei arwyddo gan bob un o'n cynrychiolwyr awdurdodedig, bydd yn ymrwmo naill barti a'r llall, ac yn parhau i wneud hynny.
- (viii) Bydd costau a threuliau'r broses gyfryngu'n cael eu talu'n gyfartal gennych chi a ni. Bydd pob parti'n talu ei gostau a'i dreuliau ei hun am ei ran yn y broses gyfryngu.
- (ix) Os na ddeuir i gytundeb o fewn 14 diwrnod i benodi Cyfryngwr yna gallai'r Anghydfod gael ei gyfeirio i'r llysoedd. Rydych chi a ni'n cytuno ac yn ymgymryd i gyfeirio unrhyw Anghydfod i'r llysoedd nes bod gweithdrefnau datrys anghydfod yr amod 27 hwn wedi eu dilyn a bod cyfnod o 14 diwrnod wedi dod i ben, ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae angen gwaharddiad syth neu gamau eraill gan y llysoedd.

28. DIOGELU PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED

- (i) Byddwch yn:
- (a) sicrhau bod pob unigolyn sy'n ymwneud ag unrhyw Weithgaredd a Reoleiddir o dan y Contract yn destun gwiriad datgelu manylach dilys ar gyfer gweithgaredd a reoleiddir a wneir drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS);

- (b) monitro lefel a dilysrwydd y gwiriadau o dan yr amod hwn 28(i) ar gyfer pob aelod o staff; a
 - (c) pheidio â chyflogi na defnyddio gwasanaethau unrhyw berson sydd wedi'i wahardd rhag neu sydd ag ymddygiad neu gofnodion blaenorol sy'n dangos na fyddai'n addas i gyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir neu a allai fel arall beri risg i'n defnyddwyr gwasanaeth.
- (ii) Rydych yn gwarantu bob amser at ddbenion y Contract nad oes gennych unrhyw reswm i gredu bod unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi neu a fydd yn cael ei gyflogi neu ei gynnwys gennych i ddarparu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau wedi'i wahardd rhag gwneud y gweithgaredd hwnnw yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.
 - (iii) Byddwch yn ein hysbysu ar unwaith am unrhyw wybodaeth y gofynnwn amdani'n rhesymol i'n galluogi i fod yn fodlon bod dyletswyddau'r amod 28 hwn wedi'u bodloni.
 - (iv) Byddwch yn cyfeirio gwybodaeth am unrhyw berson sy'n cyflawni'r Gwasanaethau at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a fydd yn dileu'r caniatâd i'r cyfryw berson gyflawni'r Gwasanaethau (neu y byddai wedi gwneud, pe na bai'r unigolyn hwnnw wedi rhoi'r gorau i gyflawni'r Gwasanaethau) oherwydd, yn eich barn chi, bod yr unigolyn hwnnw wedi niweidio neu'n peri risg o niwed i'n defnyddwyr gwasanaeth, plant neu oedolion agored i niwed.

29. CYFRINACHEDD A PHROSESU DATA

- (i) Byddwch yn cadw'n gwbl gyfrinachol unrhyw wybodaeth o natur gyfrinachol a ddatgelir i chi gennym ni neu a geir gennym ni neu ein personél yn ymwneud â'n busnes, prosesau, cwsmeriaid, cynhyrchion, gwasanaethau a/neu fentrau. Dim ond i'r aelodau hynny o'ch gweithwyr y mae angen yr wybodaeth arnynt i ddiben cyflawni eich dyletswyddau o dan y Contract y byddwch yn datgelu'r wybodaeth gyfrinachol honno, a byddwch yn sicrhau bod eich gweithwyr yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir yn yr amod hwn fel pe baent yn rhan o'r Contract. Hefyd gallwch ddatgelu'r hyn sy'n ofynnol o'n gwybodaeth gyfrinachol yn ôl yn gyfraith, unrhyw gais gan y llywodraeth neu y gofynnir am ei datgelu gan unrhyw awdurdod rheoleiddio neu gan lys awdurdodaeth cymwys.
- (ii) Byddwch yn:
 - Prosesu unrhyw Ddata Personol (unrhyw ddata personol a brosesir mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau ("Data Personol") ar ac yn unol â'n cyfarwyddiadau ni yn unig;
 - gweithredu mesurau sefydliadol a thechnegol priodol i ddiogelu Data Personol rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon a cholled neu ddifrod damweiniol;
 - ni fyddwch yn trosglwyddo unrhyw Ddata Personol i unrhyw wlad y tu allan i'r DU neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;
 - sicrhau bod mynediad at unrhyw Ddata Personol wedi ei gyfyngu i'r aelodau hynny o'ch gweithwyr y mae angen mynediad at y Data Personol arnynt er mwyn cyflawni eich dyletswyddau o dan y Contract a bod pob aelod o'r Gweithwyr hynny'n cael gwybod am natur gyfrinachol y Data Personol;
 - cydymffurfio â'ch dyletswyddau o dan unrhyw gyfraith diogelu Data berthnasol, ac ni fydd, drwy weithred neu hepgoriad, yn peri ein bod yn torri, neu'n peryglu unrhyw gofrestrriad o dan unrhyw Gyfraith Diogelu Data;
 - ein hysbysu'n brydlon ac yn llawn yn ysgrifenedig o unrhyw hysbysiadau a dderbyniwyd gennych chi mewn cysylltiad â phrosesu unrhyw Ddata Personol, yn cynnwys ceisiadau am fynediad at yr hyn sydd dan sylw, a byddwch yn darparu'r arnom;
 - ein hysbysu'n brydlon ac yn llawn yn ysgrifenedig os bydd unrhyw Ddata Personol yn cael ei ddatgelu nad yw'n cydymffurfio ag amod 29(ii) a chymryd pob cam i'n galluogi i gydymffurfio'n brydlon ag unrhyw weithdrefnau hysbysu torri diogelwch sydd ganddo; a
 - heb ragfarnu darpariaethau amod 17, yn ein digolledu rhag unrhyw golled neu ddifrod o ganlyniad i unrhyw achos o dorri gennych chi, eich gweithwyr, asiantau neu isgcontractwyr o'ch dyletswyddau o dan amod 29(ii).

30. GWRTH-LWGRWOBRYO

- (i) Byddwch yn sicrhau eich bod chi a'r holl bersonau sy'n gysylltiedig â chi yn unol â'r Contract yn:
 - (a) cydymffurfio â'r holl ddeddfau, rheoliadau, codau a sancsiynau perthnasol sy'n ymwneud â gwrth-lwgrwobrwyo a gwrthdwyll, gan gynnwys Deddf Llwgrwobrwyo 2010 (y "Gofynion Perthnasol");
 - (b) peidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd, ymarfer neu ymddygiad a fyddai'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 6 o Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 pe bai gweithgaredd, arfer neu ymddygiad o'r fath wedi'i gyflawni yn y DU;
 - (c) peidio â gwneud, neu hepgor gwneud, unrhyw weithred a fyddai'n peri i ni neu'n ein harwain i dorri unrhyw un o'r Gofynion Perthnasol;
 - (d) ein hysbysu ar unwaith os bydd swyddog cyhoeddus tramor yn dod yn swyddog neu'n weithiwr i chi neu'n cael buddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol ynoch chi (a'ch bod yn gwarantu nad oes gennych unrhyw

swyddogion cyhoeddus tramor fel swyddogion, gweithwyr neu berchnogion uniongyrchol neu anuniongyrchol ar adeg y Contract hwn).

31. CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Byddwch yn cydymffurfio â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan roi'r un dilysrwydd i'r Gymraeg a'r Saesneg. Os yw darparu'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau yn cynnwys elfen iaith Gymraeg, dylech ofyn am gymorth a chyngor gennym gyda'r holl dasgau cyfieithu er mwyn sicrhau darpariaeth gyson ac o safon.

32. ILDIO HAWL

Ni fydd methu ar unrhyw adeg i orfodi unrhyw ofyniad yn y Contract yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar yr hawl yn ddiweddarach i'w gwneud yn ofynnol i'r Contract gael ei gyflawni'n llwyr, ac ni fydd ildio hawl i dorri unrhyw ofyniad yn cael ei ystyried nac yn cael ei gymryd fel hawl i ildio unrhyw dorri gofyniad pellach nac yn ildio'r hawl i'r gofyniad ei hun.

33. DILYSRWYDD GOFYNION

- (i) Os bydd unrhyw ofyniad neu ofyniad rhannol yn y Contract hwn yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n amhosibl ei orfodi, ystyrir ei bod wedi'i haddasu i'r graddau lleiaf sy'n ofynnol i'w wneud yn ddilys, yn gyfreithlon ac yn bosibl ei orfodi. Os nad yw addasiad o'r fath yn bosibl, ystyrir bod y gofyniad perthnasol neu'r gofyniad rhannol wedi'i ddileu. Ni fydd unrhyw addasiad i ofyniad neu ofyniad rhannol neu ei ddileu o dan yr amod hwn yn effeithio ar ddilysrwydd a'r gallu i orfodi gweddill y Contract hwn.
- (ii) Os yw unrhyw ofyniad neu ofyniad rhannol yn y Contract hwn yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n amhosibl ei orfodi, bydd y partiön yn cyd-drafod yn ddiwyll er mwyn diwygio gofyniad o'r fath fel ei fod, fel y'i diwygiwyd, yn gyfreithlon, yn ddilys ac yn bosibl ei orfodi, ac, i'r graddau mwyaf posibl, yn cyflawni canlyniad masnachol arfaethedig y gofyniad gwreiddiol.

34. HYSBYSU

Bydd yr holl hysbysiadau a gohebiaeth y mae'n ofynnol i ni eu hanfon atoch yn y Contract hwn yn cael eu gwneud yn ysgrifenedig a'u hanfon naill ai drwy ffacsimili, post dosbarth cyntaf neu e-bost (post electronig) i'ch swyddfa gofrestredig neu'ch prif swyddfa ac os y'u danfonir gennych chi atom ni fe'u hanfonir at ein Swyddog Awdurdodedig a berrir eu bod wedi cyrraedd y parti y'u cyfeirir atynt ar y diwrnod busnes nesaf ar ôl y dyddiad trosglwyddo neu bostio.

35. DIWYGIO

Yn ddarostyngedig i amod 15, ni fydd ychwanegu, diwygio neu newid yr Amodau hyn yn ein hymrwymo nac yn ffurfio rhan o'r Contract oni bai a hyd nes y cânt eu derbyn yn ysgrifenedig gan ein Swyddog Awdurdodedig.

36. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- (i) Byddwch yn:
 - (a) cyflawni eich dyletswyddau o dan y Contract hwn yn unol â'r:
 - (i) holl ddeddfwriaeth a rheoliadau cydraddoldeb perthnasol (boed hynny mewn perthynas â hil, rhyw, ailbennu rhywedd, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd, mamolaeth neu fel arall); ac
 - (j) unrhyw ofynion a chyfarwyddiadau eraill y gosodwn yn rhesymol mewn cysylltiad ag unrhyw ddyletswyddau cydraddoldeb a osodir arnom ar unrhyw adeg o dan y gyfraith cydraddoldeb berthnasol; ac yn
 - (b) cymryd pob cam angenrheidiol, a'n hysbysu am y camau a gymerwyd, i atal gwahaniaethu anghyfreithlon y dynodir felly gan unrhyw lys neu dribiwnlys, neu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (neu unrhyw sefydliad olynol).

37. CYFRINACHEDD

- (i) Bydd pob parti yn:
 - (a) cadw'n gyfrinachol pob mater sy'n ymwneud â'r Contract hwn a bydd yn gwneud pob ymdrech resymol i atal ei gynrychiolwyr rhag gwneud unrhyw ddatgeliad i unrhyw berson ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â hyn;
 - (b) trin yr holl wybodaeth gyfrinachol sy'n perthyn i'r parti arall yn gyfrinachol ac yn ei diogelu yn unol â hynny; ac
 - (c) ni fydd yn datgelu i unrhyw berson unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol sy'n perthyn i'r parti arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y parti arall, ac eithrio i'r personau hynny ac i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Contract hwn ac wedyn dim ond pan fo personau dan sylw'n ddarostyngedig i gyfrinachedd neu wedi ymgymryd i gadw cyfrinachedd ar delerau heb fod yn llai llym na'r rhai a nodir yn

amod 37 cyn y datgelir Gwybodaeth Gyfrinachol o'r fath iddynt ac eithrio pan fo datgeliad yn cael ei ganiatáu'n benodol drwy ofyniad y Contract hwn.

- (ii) Ni fydd gofynion amod 37 (i) yn berthnasol i unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a dderbynnir gan y naill barti oddi wrth y llall;
 - (a) sydd yn y gyhoeddus neu'n sy'n mynd i fod yn gyhoeddus (ac eithrio drwy dorri'r amod 37 hwn);
 - (b) a oedd ym meddiant y parti sy'n derbyn, heb gyfyngiad o ran ei ddatgelu, cyn ei derbyn oddi wrth y parti sy'n datgelu;
 - (c) a dderbynnir gan drydydd parti a'i caffaelodd yn gyfreithlon ac nad yw o dan unrhyw ddyletswydd i gyfyngu ar ei datgeliad;
 - (d) sydd wedi ei datblygu'n annibynnol heb fynediad i'r Wybodaeth Gyfrinachol; neu
 - (e) y mae'n ofynnol ei datgelu yn unol â dyletswydd statudol, gyfreithiol neu reoleiddiol a osodir ar y parti sy'n gwneud y datgeliad (gan gynnwys unrhyw Gais am Wybodaeth) neu y gofynnir amdani gan gorff llywodraethu neu gorff goruchwyllo y mae'r derbynnydd yn ddarostyngedig i'w awdurdodaeth.
- (iii) Os bydd un parti yn methu â chydymffurfio â'r amod hwn 37, mae'r parti arall yn cadw'r hawl i derfynu'r Contract hwn drwy hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith.

38. RHYDDID GWYBODAETH

- (i) Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.
- (ii) Yn ôl ein disgrisiwn, gallwn eich hysbysu bod Cais am Wybodaeth am y Contract hwn wedi'i gyflwyno.
- (iii) Byddwch yn;
 - (a) Darparu'r holl gymorth a gweithrediad angenrheidiol fel y gofynnir gennym yn rhesymol i'n galluogi i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.
 - (b) Trosglwyddo i ni bob Cais am Wybodaeth sy'n ymwneud â'r Contract hwn a dderbynnir cyn gynted ag y bo'n ymarferol a beth bynnag o fewn 2 Ddiwrnod Gwaith i'w derbyn.
 - (c) Rhoi copi i ni o'r holl Wybodaeth sy'n perthyn i ni y gofynnwyd amdani yn y Cais am Wybodaeth sydd yn eich meddiant neu o dan eich rheolaeth ar y ffurf sydd ei hangen arnom o fewn 5 Diwrnod Gwaith (neu unrhyw gyfnod arall y gallem ei bennu'n rhesymol) i'n cais am yr Wybodaeth.
 - (d) Peidio ag ymateb yn uniongyrchol i Gais am Wybodaeth oni bai ein bod wedi' awdurdodi hynny'n ysgrifenedig.
- (iv) Rydych yn cydnabod y gallai fod yn ofynnol i ni o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ddatgelu Gwybodaeth (gan gynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif) heb ymgynghori na chael caniatâd gennych. Byddwn yn cymryd camau rhesymol i'ch hysbysu am Gais am Wybodaeth (yn unol ag adran 45 Cod Ymarfer yr Ysgrifennydd Gwladol ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus o dan Ran 1 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth) i'r graddau y caniateir ac yn rhesymol ymarferol i ni wneud hynny ond (er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall yn y Contract hwn) byddwn yn gyfrifol am benderfynu yn ôl ein disgrisiwn absoliwt a yw unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif a/neu wybodaeth arall wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

39. CYFRAITH LLYWODRAETHU AC AWDURDODAETH

- (i) Bydd y Contract hwn ac unrhyw anghydfod neu hawliad (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau nad ydynt yn gytundebol) sy'n deillio ohono neu mewn cysylltiad ag ef neu ei bwnc neu ffurf yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli'n unol â chyfraith Cymru a Lloegr.
- (ii) Mae pob parti'n cytuno'n ddiymwad y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau nad ydynt yn gytundebol) sy'n deillio o'r Contract hwn neu mewn cysylltiad ag ef neu ei bwnc neu ffurf.

OS BYDD Y Nwyddau a'r Gwaith yn Cynnwys Gweithrediadau Adeiladu, Bydd yr Amodau'n Cael eu Diwygio fel y Nodir Isod

1 Cymal 1 (i)	2 DYLLID CYNNWYS y canlynol fel diffiniadau newydd 3	4
5	6 Ystyr Rheoliadau "Adeiladu Dylunio a Rheoli" 7 yw Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015 fel y'u diwygiwyd; 8	9
10	11 Ystyr " Niweidiol " 12 yw deunyddiau, cyfarpar, cynhyrchion neu becynnau a dderbynnir yn gyffredinol, neu a amheuir yn gyffredinol, yn y diwydiant adeiladu ar yr adeg berthnasol o fod yn rhai: (i) sy'n fygythiad iechyd a diogelwch unrhyw un; (ii) sy'n fygythiad i sefydlogrwydd strwythurol, perfformiad neu gyfanrwydd ffisegol y Nwyddau a'r Gwasanaethau neu unrhyw ran neu gydran o'r Nwyddau a Gwasanaethau; (iii) sy'n lleihau, neu o bosibl leihau, disgwyliad oes arferol y Nwyddau a'r Gwasanaethau neu unrhyw ran neu gydran o'r Nwyddau a Gwasanaethau; (iv) nad yw'n unol ag unrhyw Safon Brydeinig berthnasol, cod ymarfer perthnasol, arfer adeiladu da neu unrhyw dystysgrif agrément berthnasol a gyhoeddwr gan Fwrdd Agrément Prydain; neu 13 a gyflenwyd neu a roddwyd ar y farchnad yn groes i'r statudau, rheoliadau a safonau cyfreithiau perthnasol. 14	15
16	17 Ystyr " Arferion Diwydiant Da " 18 yw defnyddio safonau, arferion, crefftwaith, dulliau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a safonau perthnasol o bryd i'w gilydd sydd mewn grym neu a ddisgwylir ac arfer y lefel honno o fedr a gofal, diwydrwydd, pwyll a rhagolwg a fyddai i'w ddisgwyl yn rhesymol ac fel arfer gan unigolyn neu gorff medrus a phrofiadol sy'n darparu'r Nwyddau a'r Gwasanaethau (yn cynnwys unrhyw wasanaethau dylunio) o dan yr un amgylchiadau neu rai tebyg. 20	21
22	23 Ystyr " Rhaglen " 24 yw unrhyw raglen y cytunwyd arni rhyngom yn unol â'r Archeb; 25	26
27	28 Ystyr " Adeiladau " 29 yw'r lleoliad neu'r safle lle mae'r Gwasanaethau i'w cyflawni a/neu'r Nwyddau i'w cyflenwi; 30	31
32	33 Ystyr " Yswiriant Gofynnol " 34 yw'r yswiriant a nodir yn yr Archeb; 35 36	37
38 Cymal 5(iii)	39 DYLLID CYNNWYS y canlynol fel Cymal 5(iii)(h) i (j) newydd: 40 41 5 CYFLENWI GWASANAETHAU 42 h) ni fyddwch, heb ein caniatâd ysgrifenedig ni, y gwneud unrhyw newid perthnasol i unrhyw ddyluniadau neu fanylebau ar gyfer y Nwyddau a'r Gwasanaethau ar ôl cytuno arnynt; 43 i) ni fyddwch yn defnyddio neu'n nodi i'w ddefnyddio ar gyfer y Nwyddau a'r Gwasanaethau unrhyw beth sy'n Niweidiol 44 j) byddwch yn cyflawni'r Gwasanaethau a pharatoi'r holl ddogfennau yr ydych yn gyfrifol amdanynt yn unol ag unrhyw Raglen neu, yn absenoldeb Rhaglen, mewn da bryd i hwyluso cynnydd effeithlon y Nwyddau a'r Gwasanaethau. 45	46
47 Cymal 5A	48 DYLLID CYNNWYS y canlynol fel Cymal 5A newydd: 49 50 5A GWAITH 51 52 (i) Heb ragfarnu eich r dyletswyddau cyffredinol yng nghymal 8, byddwch yn: 53 (a) darparu'r Nwyddau a'r Gwasanaethau yn unol ag Arferion Da'r Diwydiant; (b) defnyddio staff sydd â phrofiad, sgiliau ac wedi'u hyfforddi'n briodol i gyflawni tasgau a bennir iddynt ac mewn niferoedd digonol i sicrhau bod eich dyletswyddau'n cael eu cyflawni yn unol â'r Contract hwn; (c) cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu (Cynllunio a Rheoli) 2007 (CDM 2007) (i'r graddau sy'n berthnasol). (d) darparu'r holl lafur peiriannau cyfarpar offer a cherbydau ac eitemau eraill o'r fath sy'n ofynnol i ddarparu'r Gwasanaethau ac eithrio fel y nodir fel arall yn yr Archeb; (e) cynnal a chwblhau'r Nwyddau a'r Gwasanaethau yn unol ag unrhyw Raglen ac yn unol â'r gofynion yn yr Archeb ac erbyn unrhyw ddyddiad cwblhau a nodir yn yr Archeb neu'r Contract; 54 (ii) Bernir eich bod wedi archwilio'r Safle a'ch bod yn fodlon ynglŷn â'i natur a'i gyflwr. Ni fydd gennym gyfrifoldeb am ddigonolrwydd cywirdeb neu gyflawnrwydd unrhyw wybodaeth a ddarperir i chi nac am unrhyw ddatganiad a gynhwysir ynddi boed wedi'i wneud yn esgeulus neu fel arall. Nid yw unrhyw fethiant ar eich rhan i ddarganfod na rhagweld natur, graddau, risg neu gyflwr sy'n gysylltiedig â'r Safle yn rhoi hawl i chi gael unrhyw daliad neu amser ychwanegol o dan y Contract hwn. 55 56 (iii) Bydd yr holl beiriannau ac offer a symudir i'r Safle ar eich risg eich hun. 57 58 (iv) Byddwch bob amser yn cadw'r Safle'n glir o falurion deunyddiau a sbwriel cyffredinol sy'n deillio o ddarparu'r Nwyddau a'r Gwasanaethau ac yn cydymffurfio ag unrhyw bolisi gwastraff a ddarperir gennym o bryd i'w gilydd neu sy'n cael ei arddangos ar y Safle. 59 60 (v) Byddwch yn hwyluso ac yn caniatáu i ni gynnal archwilio'r holl Nwyddau a/neu Wasanaethau a osodir yn y Safle. Byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig o'r holl Nwyddau a/neu Wasanaethau y mae angen eu cywiro a byddwch yn gwneud pob ymdrech rhesymol i'w cywiro mewn da bryd a chyn cwblhau'r Gwasanaethau. 61 62 (vi) Byddwch yn rhoi rhybudd i ni o ba bryd yr ydych yn rhagweld y byddwch yn cwblhau'r Gwasanaethau. Yna byddwn yn arolygu'r Gwasanaethau a gyflawnwyd gennych ac yn cadarnhau'n ysgrifenedig i chi a ydym o'r farn bod y Gwasanaethau wedi'u cwblhau ai peidio. Os nad ydym o'r farn bod y Gwasanaethau wedi'u cwblhau, byddwn yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i chi o'r eitemau hynny sydd heb eu darparu. 63 64 (vii) Ar ôl cwblhau'r Gwasanaethau, byddwch yn symud unrhyw beiriannau a chyfarpar a deunyddiau sydd heb eu defnyddio a byddwch yn clirio'r holl sbwriel sy'n deillio o'r Gwasanaethau o'r Safle, yn gwneud iawn am unrhyw ddifrod a achoswyd i'r Safle ac yn gadael y Safle mewn cyflwr glân a thaculus. 65 66 (viii) Byddwch yn dychwelyd i'r Safle i gywiro unrhyw waith diffygiol a bydd gennym hawl i gadw'n ôl werth unrhyw Nwyddau a/neu Wasanaethau diffygiol o'r taliad i chi yn y cyfamsr. 67	68
69 Cymal 5B	70 DYLLID CYNNWYS y canlynol fel Cymal 5B newydd: 71 72 5B ESTYNIADAU AMSER 73 74 (i) Byddwch yn ein hysbysu'n ysgrifenedig os daw'n armlwg na fydd y Nwyddau a'r Gwasanaethau yn cael eu cwblhau erbyn y dyddiad sy'n ofynnol o dan y Contract neu fel y nodir yn ddiweddarach o dan y cymal hwn. Pan fydd yr oedi hwnnw'n digwydd am resymau y tu hwnt i'ch rheolaeth, [gan gynnwys cydymffurfio â'n cyfarwyddiadau nad ydynt yn cael eu generadu gan eich rhagosodiad eich hun] byddwch yn cael y cyfryw estyniad o amser ar gyfer cwblhau'r Nwyddau a Gwasanaethau fel sydd yn rhesymol. 75 76	77
78 Cymal 18	79 DYLLID YCHWANEGU Cymal 18 (v) newydd i (vi): 80 81 18 YSWIRIANT 82 83 (v) Er y gofynion a nodir uchod, byddwch hefyd yn trefnu ac yn cynnal unrhyw Yswiriant Gofynnol a nodir yn yr Archeb. 84 85 (vi) Os byddwch yn darparu gwasanaethau dylunio, byddwch yn cynnal polisi yswiriant indemniad proffesiynol addas gyda therfyn o ddim llai na'r swm a nodir yn yr Archeb (ac os na nodir swm o'r fath, dim llai na £5m (pum miliwn)). 86	87

89 DYLLID CYNNWYS y canlynol fel Cymal 27 (x) newydd: 90 **91 27 DATRYS ANGHYDFOD** 92 93 Os yw'r Contract hwn yn "gontract adeiladu" yn unol ag adran 104 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 fel y'i diwygiwyd, bydd hawl gan bob parti i gyfeirio unrhyw anghydfod sy'n codi o dan neu mewn cysylltiad â'r Contract hwn i'w ddyfarnu o dan Reoliadau Cynlluniau Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Diwygiad) (Cymru) 2001.